Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hapsamplu'r Panel Craffu

## Stopio a chwilio – cerbydau

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel

# Cynnwys

**Cynnwys** ........................................................................................ 1

**1.0 Trosolwg, cefndir, diben a methodoleg** ........................................ **2**

**2.0 Crynodeb gweithredol** ........................................................... **3**

**3.0 Adolygiad o ddigwyddiadau** .................................................... **3**

**4.0 Ymateb i ymholiadau a godwyd** ............................................... **9**

# 1.0 Trosolwg, cefndir, diben a methodoleg

Mae cylch gorchwyl y Panel Sicrhau Ansawdd, sydd ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/khad1skc/qap-tor-final-2025.pdf , yn nodi cefndir a diben y panel ynghyd â sut mae'r samplu ar hap yn cael ei gynnal a'r hyn a ofynnir i'r panel ei ystyried.

Yng nghyfarfod y panel sicrhau ansawdd y comisiynydd a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2026, ystyriwyd detholiad ar hap o ddigwyddiadau stopio a chwilio cerbydau gan yr aelodau. Ystyriodd yr aelodau ddetholiad o ffurflenni stopio a chwilio a'u fideo camera corff cysylltiedig. Adolygodd y panel chwe digwyddiad stopio a chwilio.

Rhoddodd Hyfforddwr Gweithrediadau Arbenigol sy'n darparu hyfforddiant i swyddogion heddlu newydd eu recriwtio ar dechnegau stopio a chwilio wybodaeth i'r panel ymlaen llaw am y gweithdrefnau. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y tri darn mwyaf cyffredin o ddeddfwriaeth a ddefnyddir i gynnal gweithgarwch stopio a chwilio sef:

Adran 1 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol – Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984

Adran 23 Deddf Camddefnyddio Cyffuriau – Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971

Adran 32 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol – Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984

Yn ystod y mewnbwn treuliodd y swyddog amser yn pwysleisio y dylai pob digwyddiad stopio a chwilio ddilyn GOWISELY:

- **G**rounds – amlinellu'r rhesymau dros chwilio
- **O**bject – nodi gwrthrych y chwiliad
- **W**arrant – os nad yw'r swyddog yn gwisgo lifrai
- **I**dentity – enw a rhif y swyddog
- **S**tation – nodi'r orsaf y mae'r swyddog yn gweithio ynddi

- **E**ntitlement – copi o'r cofnod
- **L**egal – y pŵer cyfreithiol a ddefnyddir
- **Y**ou – esbonio i'r unigolyn ei fod yn cael ei 'ddal at ddibenion chwiliad'

# 2.0 Crynodeb gweithredol

At ei gilydd, adolygodd y panel chwe digwyddiad stopio a chwilio.

**Adborth cadarnhaol**

- Roedd yr aelodau'n teimlo'n gadarnhaol bod eitemau wedi'u canfod yn ystod dau chwiliad a oedd yn cyfiawnhau'r digwyddiadau stopio a chwilio.

**Meysydd i'w gwella**

- O edrych ar y chwiliadau, nid yw'n ymddangos bod dull cyson o sut mae chwiliadau'n cael eu cynnal.
- Mae angen ystyried y defnydd o iaith a therminoleg a ddefnyddir gan swyddogion yn ystod gweithgarwch stopio a chwilio. Mae angen cysondeb o ran iaith ac ymddygiad drwy gydol y broses stopio a chwilio er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag unigolion, a siaredir â hwy, yn yr un modd o ddechrau'r chwiliad hyd at ddiwedd y broses.
- Dylid bod yn ofalus i beidio â datgelu data personol eraill yn ystod digwyddiad stopio a chwilio.

Nododd yr aelodau fod gan oruchwylwyr y cyfle i adolygu'r digwyddiadau stopio a chwilio a'u sgorio yn erbyn statws Coch Melyn Gwyrdd. Nodwyd bod pedwar digwyddiad wedi cael statws Gwyrdd, bod un digwyddiad wedi cael statws Melyn, ac nad oedd adolygiad goruchwyliwr wedi'i gofnodi mewn un digwyddiad. Nodwyd bod hyn oherwydd nad oedd fideo camera corff i'w wylio. Roedd y rhai a gafodd statws Gwyrdd yn bodloni'r safonau disgwyliedig yn llawn ac nid oedd yr un a gafodd statws Melyn yn bodloni'r disgwyliadau'n llawn a chafodd y swyddog ôl-drafodaeth.

# 3.0 Adolygiad o ddigwyddiadau

| **Digwyddiad 1** |
|---|
| **Amgylchiadau**<br><br>Mae patrôl mewn cerbydau wedi gweld car yn gyrru ar gyflymder gormodol |

| |
|---|
| ac yn gwyro'n sydyn ar y ffordd. Mae unigolyn wedi cyfaddef cymryd sylwedd gwaharddedig y noson gynt ac wedi cael ei arestio ar amheuaeth o drosedd adran 4 o dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd.<br><br>Darganfuwyd cyffuriau ac arfau. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Roedd yn gadarnhaol bod swyddogion wedi dod o hyd i ddetholiad o eitemau wrth gynnal y chwiliad. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Nid oedd unrhyw ffordd i'r panel wybod a ddilynwyd GOWISELY yn gywir ai peidio oherwydd bod y fideo camera corff a welwyd wedi dechrau yn ystod y chwiliad.<br><br>• Nid oedd y panel yn gallu cadarnhau o'r fideo camera corff pam y cafodd y cerbyd ei stopio. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• Pam oedd amseroedd y fideo camera corff yn wahanol i'r amser a gofnodwyd yn y cofnod stopio a chwilio?<br><br>• Cwestiynodd yr aelodau pam fod y digwyddiad hwn wedi cael statws Gwyrdd gan y goruchwyliwr perthnasol pan oedd yna ychydig o feysydd i'w gwella.<br><br>• Teimlai'r panel y gallai'r chwiliad fod wedi bod yn fwy trylwyr. Er y derbyniwyd bod eitemau o ddiddordeb wedi'u canfod, gellid bod wedi cynnal y chwiliad mewn modd mwy trefnus er mwyn sicrhau nad oedd dim byd wedi'i golli. |

| |
|---|
| **Digwyddiad 2** |
| **Amgylchiadau** |

| |
|---|
| Gwelir cerbyd yn gadael lleoliad am 2am ac mae arogl cryf o ganabis yn dod o'r cerbyd.<br><br>Darganfuwyd cyffuriau yn ystod y chwiliad |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Nododd yr aelodau fod y ffordd y cafodd tystiolaeth ei thrin yn gadarnhaol, a rhoddwyd y cyffuriau a ddarganfuwyd mewn bag tystiolaeth ar unwaith. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Teimlai'r aelodau fod y sail resymegol ar y cofnod stopio a chwilio dros atal y cerbyd yn anghywir oherwydd ei fod yn nodi bod arogl cryf o ganabis yn dod o'r cerbyd pan welodd y swyddogion ef gyntaf. Cwestiynodd yr aelodau a oedd yn bosibl arogli canabis o tu fewn i'r car heddlu.<br><br>• Teimlai'r aelodau fod angen i swyddogion fod yn ymwybodol o'r iaith a ddefnyddir wrth gynnal digwyddiadau stopio a chwilio er mwyn sicrhau ei bod yn briodol. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• Gofynnodd yr aelodau a ddylid bod wedi cychwyn proses defnyddio datrysiad cymunedol ar gyfer meddu ar gyffuriau cyn gweithdrefn profi cyffuriau? Hefyd, o ystyried y ffaith nad oedd gan y car dreth, MOT nac yswiriant, a ddylai pob trosedd gael eu trin gyda'i gilydd cyn rhoi gwybod am y datrysiad.<br><br>• Pam oedd amseroedd y camera corff yn wahanol i'r amser a gofnodwyd yn y cofnod stopio a chwilio.<br><br>• Ymddangosai i'r panel fod gwahanol swyddogion yn cymryd yr awenau ar wahanol droseddau a gofynnodd ai hyn yw'r weithdrefn arferol. |

## Digwyddiad 3

### Amgylchiadau

Mae swyddog wedi mynd i gyfeiriad i chwilio am gyffuriau pan wnaeth unigolyn ddianc o'r eiddo. O ganlyniad i chwiliad cadarnhaol yn y cyfeiriad, amheuwyd y gallai eitemau pellach fod yn y cerbyd.

Ni ddarganfuwyd unrhyw eitemau.

**Pwyntiau cadarnhaol**

- Chwiliad trylwyr a threfnus o'r cerbyd, gyda'r swyddogion yn cydweithio.
- Eglurwyd GOWISELY yn glir i'r unigolyn.
- Roedd y swyddogion yn ystyriol wrth dynnu eitemau o'r car, gan sicrhau na fyddai unrhyw eitemau yn cael eu difrodi.

**Meysydd i'w gwella**

- Nid oedd yr aelodau'n glir a gynigiwyd cyfle i'r unigolyn fod yn bresennol yn ystod chwiliad y cerbyd ac roeddent yn meddwl tybed a ddylid cynnig hyn bob amser?

### Materion a godwyd

- Nododd yr aelodau fod swyddogion yn defnyddio golau'r fflachlamp ar eu ffonau ac roeddent yn meddwl tybed pam nad yw'r heddlu'n darparu fflachlampau bach i'w dal yn y llaw neu rhai i'w rhoi ar y pen?
- Oherwydd bod hwn yn enghraifft dda o chwiliad cerbyd, gofynnodd yr aelodau a ddarperir hyfforddiant penodol ar sut i gynnal chwiliad o gerbyd?
- Pam oedd amseroedd y fideo camera corff yn wahanol i'r amser a gofnodwyd yn y cofnod stopio a chwilio?

## Digwyddiad 4

| |
|---|
| **Amgylchiadau**<br><br>Wrth gynnal chwiliad mewn eiddo, darganfyddir allwedd car o gerbyd amheus a chynhaliwyd chwiliad. |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Nid oedd unrhyw sylwadau cadarnhaol i'w gwneud oherwydd absenoldeb fideo camera corff. |
| **Meysydd i'w gwella**<br><br>• Nododd yr aelodau fod y cofnod stopio a chwilio yn nodi bod y digwyddiad hwn wedi'i gofnodi ar gamera corff, ond nad oedd camera corff wedi'i ddarparu. Dywedwyd wrthynt bod hyn oherwydd nad oedd y digwyddiad wedi'i gategoreiddio'n gywir, ac felly bod y fideo camera corff wedi'i ddileu ar ôl 30 diwrnod. |
| **Materion a godwyd**<br><br>• Oherwydd nid oes unrhyw fideo camera corff, gofynnodd yr aelodau pa mor aml mae hyn yn digwydd a pha effaith y mae hyn yn ei chael, neu y gallai ei chael, ar ddigwyddiadau penodol? |

| |
|---|
| **Digwyddiad 5** |
| **Amgylchiadau**<br><br>Stopiwyd cerbyd ar sail cudd-wybodaeth a oedd yn gysylltiedig â phobl a enwir fel risg posib yn yr ardal sydd â chysylltiadau â chyflenwi cyffuriau a reolir.<br><br>Ni ddarganfuwyd unrhyw eitemau |
| **Pwyntiau cadarnhaol**<br><br>• Perthynas ardderchog rhwng y swyddogion a'r rhai a oedd yn destun y digwyddiad stopio a chwilio.<br>• Darparwyd esboniad llawn ar gyfer y penderfyniad i stopio, eglurwyd |

GOWISELY yn glir.

- Teimlwyd bod yr iaith yn addas i'r oedran a defnyddiwyd iaith berthnasol yn ystod y chwiliad.

**Meysydd i'w gwella**

- Er y crybwyllwyd yn wreiddiol fod y car wedi'i gysylltu â "phobl a enwir fel risg posibl", ymhellach ymlaen yn y chwiliad crybwyllwyd enw unigolyn ac roedd y panel o'r farn bod hyn o bosibl yn torri GDPR.

**Materion a godwyd**

- A yw'n normal cael tri pherson yn rhan o'r digwyddiad stopio a chwilio? Nid oedd y panel yn gallu arsylwi'r chwiliad yn uniongyrchol a gofynnodd a oedd wedi'i gofnodi ar gamera corff y swyddogion eraill.
- Pam oedd amseroedd y camera corff yn wahanol i'r amser a gofnodwyd yn y cofnod stopio a chwilio.

**Digwyddiad 6**

**Amgylchiadau**

Cafwyd gwybodaeth bod cerbyd yn cael ei ddefnyddio gan ddefnyddiwr cyffuriau, cafodd ei stopio a chynhaliwyd chwiliad.

Ni ddarganfuwyd unrhyw eitemau.

**Pwyntiau cadarnhaol**

- Darparwyd esboniad llawn o'r chwiliad ac esboniwyd GOWISELY yn glir.

**Meysydd i'w gwella**

- Nid oedd unrhyw sôn am y posibilrwydd y byddai'r unigolyn yn gallu cael copi o'r adroddiad.
- Teimlai'r panel fod y swyddog yn annymunol ar ddiwedd y chwiliad unwaith buodd y prawf cyffuriau yn negyddol.
- Pam oedd amseroedd y camera corff yn wahanol i'r amser a gofnodwyd yn y cofnod stopio a chwilio

**Materion a godwyd**

- Mae cofnod y chwiliad yn nodi bod gan yr heddlu wybodaeth bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio gan ddefnyddiwr cyffuriau, ond yn ystod y cyfweliad mae'r swyddog yn nodi ei fod yn rhan o fenter alcohol/cyffuriau'r Nadolig.
- Roedd y panel yn pryderu, er bod prawf cyffuriau'r unigolyn wedi profi'n negatif am gocên a chanabis, roedd yr unigolyn wedi cyfaddef cymryd cetamin y diwrnod cynt. Teimlai'r panel, ar adeg stopio, fod y swyddog yn credu bod yr unigolyn dan ddylanwad alcohol, felly gofynnwyd pam ei fod wedi cael parhau â'i daith.

# 4.0 Ymateb i ymholiadau a godwyd

Gwnaeth aelodau'r panel y sylwadau canlynol:

| Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|
| Ym mhob un o'r fideos camera corff a welwyd roedd y stamp amser ar y fideo yn wahanol i'r amseroedd a gofnodwyd ar y cofnod stopio a chwilio. Oes yna reswm am hyn? | O ran yr anghysondeb rhwng amseroedd y fideo camera corff a'r cofnod stopio a chwilio a ddarparwyd i'r panel, mae'r cofnod yn fersiwn wedi'i glanhau o'r cofnod stopio a chwilio ac fel arfer fe'i cymerir o'r digwyddiad Niche.<br>Yn aml bydd yr amser hwn yn wahanol i amser y camera corff oherwydd bod y digwyddiad fel arfer yn cael ei ddiweddaru'n ddiweddarach yn shifft swyddog pan fydd yn dychwelyd i'r orsaf. Mae amseroedd cywir sy'n cyfateb i rai'r fideo camera corff ar y cofnodion stopio a chwilio gwreiddiol. |
| Cwestiynodd yr aelodau pam roddwyd statws Gwyrdd i ddigwyddiad 1 pan oeddent yn teimlo bod yna ychydig o feysydd allweddol i'w gwella? | Gofynnir i oruchwylwyr raddio'r digwyddiad stopio a chwilio yn gyffredinol. Efallai y byddant yn adolygu'r fideo camera corff neu beidio wrth gynnal yr adolygiad. Barn yw'r gradd a roddir, a gall amrywio ychydig o oruchwyliwr i oruchwyliwr, ond dylai pob goruchwyliwr ddarparu sail resymegol dros eu penderfyniad graddio.<br>Pan fo problemau clir yn bresennol ac nad ydynt wedi'u nodi, yna bydd goruchwylwyr unigol yn cael beirniadaeth adeiladol ac adborth yn unol â hynny.<br>Mae proses samplu ar hap ar waith ym mhob uned reoli sylfaenol pan fo cofnodion yn cael eu |

| | |
|---|---|
| | neilltuo i arolygwyr i'w samplu ar hap – bydd hyn yn cynnwys adolygiad o raddau'r goruchwylwyr ac ati a rhoi adborth adeiladol i oruchwylwyr. |
| Mewn perthynas â digwyddiad 2, gofynnodd yr aelodau a ddylid bod wedi cychwyn gorchymyn datrysiad cymunedol cyn gweithdrefn profi cyffuriau? Hefyd, y ffaith nad oedd gan y car dreth, MOT nac yswiriant, a ddylai pob trosedd fod wedi cael ei drin yn gyfan gwbl cyn darparu'r datrysiad cymunedol? | Roedd swyddogion yn delio â gwahanol droseddau yn y digwyddiad hwn – meddu ar gyffuriau a throseddau moduro gan gynnwys honiad o yrru ar gyffuriau.<br>Yn gyffredinol, bydd troseddau moduro (dim yswiriant a dim MOT) yn cael eu trin trwy gyhoeddi adroddiad trosedd draffig yn y fan a'r lle a all arwain at hysbysiad cosb benodedig / dirwy a phwyntiau cosb sy'n cael eu trin gan yr Uned Prosesau Traffig. Mae'r drosedd gyrru ar gyffuriau honedig yn gofyn am gyflwyno gwaed i'w ddadansoddi mewn labordy, sydd fel arfer yn cymryd tri i bedwar mis ar hyn o bryd. Oherwydd bod y drosedd meddu ar gyffuriau yn addas ar gyfer yr hyn a elwir yn "ddatrysiad lleol" trwy gyhoeddi datrysiad cymunedol, nid oes unrhyw werth gohirio hyn nes dychwelyd canlyniadau'r prawf gyrru ar gyffuriau. Os nad oedd y mater yn addas ar gyfer datrysiad cymunedol, yna byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i oedi'r mater am y tro ac anfon y ddau i'r llys ar yr un pryd. |
| Hefyd, mewn perthynas â digwyddiad 2, ymddangosai fod gwahanol swyddogion yn cymryd yr awenau ar wahanol droseddau a gofynnwyd ai hyn yw'r weithdrefn arferol. | O ran gwahanol swyddogion yn cymryd yr awenau ar wahanol droseddau, nid oes problem gyda hyn oherwydd bod gan wahanol swyddogion wahanol sgiliau a phrofiad ac felly gallant rannu'r llwyth gwaith yn ystod digwyddiad yn unol â hynny. |
| Nododd yr aelodau fod swyddogion yn ystod dwy alwad yn defnyddio fflachlampau ar eu ffonau symudol i gynnal y chwiliad a gofynnwyd a oeddent heb gael fflachlampau pen neu fflachlampau llaw. | Mae pob swyddog rheng flaen yn cael fflachlamp llaw fach fel rhan o'u hoffer personol er bod y dewis ynghylch a ddylid defnyddio'r fflachlamp a roddir neu ddulliau goleuo eraill (fel golau'r ffôn) yn parhau i fod yn ddewis personol i bob swyddog. |
| Nododd yr aelodau y dylid nodi digwyddiad 3 fel enghraifft o ddilyn arferion gorau wrth gynnal chwiliad o'r cerbyd gan ei fod wedi'i wneud mewn modd trefnus gyda chyfathrebu clir rhwng y swyddogion a oedd yn cynnal y chwiliad. | Bydd hyn yn cael ei adrodd yn ôl yn unol â hynny – o ran yr ymholiad ychwanegol ynghylch a yw hyfforddiant mewn chwilio am gerbydau yn cael ei ddarparu i bob swyddog:<br><br>Mae aelodau ein Tîm Chwilio Arbenigol Heddlu wedi'u hyfforddi'n drylwyr i gynnal chwiliadau "sicrwydd uchel" o gerbydau. Fodd bynnag, tan yn ddiweddar, nid oedd hyfforddiant gorfodol i bob swyddog mewn perthynas â chynnal chwiliadau effeithiol o gerbydau a datblygwyd sgiliau "wrth wneud y swydd" fel petai ar ôl cwblhau'r hyfforddiant cychwynnol. |

| | |
|---|---|
| | Cydnabuwyd bod hwn yn "fwlch sgiliau" mewn hyfforddiant ac, o ganlyniad, datblygwyd "pecyn hyfforddi ar gyfer chwilio cerbydau" pwrpasol newydd ar y cyd â Thîm Chwilio Arbenigol yr Heddlu a Chynghorwyr Chwilio'r Heddlu. Mae'r mewnbwn hyfforddi hwn bellach yn rhan o hyfforddiant sylfaenol pob swyddog sydd newydd ei recriwtio. |
| O ran digwyddiad 4 a diffyg fideo camera corff, gofynnodd yr aelodau pa mor aml nad yw digwyddiad yn cael ei gategoreiddio fel digwyddiad stopio a chwilio a pha effaith y mae hyn yn ei chael, neu y gall hyn ei chael, ar ddigwyddiadau penodol. | Mae polisi'r heddlu ar ddefnyddio camerâu corff yn nodi bod rhaid recordio POB digwyddiad stopio a chwilio yn llawn ar gamera corff oni bai bod rhesymau pwysig dros beidio, a dylid cofnodi'r rhain yn briodol yn ysgrifenedig. Mae'r polisi hefyd yn nodi y dylai'r swyddog, drwy'r system storio (evidence.com) "gategoreiddio" pob ffilm o'r fath fel "STOP SEARCH". Bydd hyn yn sicrhau bod y ffilm yn cael ei chadw am gyfnod hir er mwyn galluogi unrhyw adolygiadau ac ati i ddigwydd rhag ofn y bydd cwyn ynghylch y ffordd y cynhaliwyd y chwiliad ac ati.<br><br>Cyfrifoldeb pob swyddog yw categoreiddio'r fideo, ac yn yr achos hwn, ni wnaed hyn. O ganlyniad, byddai'r fideo'n cael eu dileu'n awtomatig o'r system storio ar ôl 30 diwrnod.<br>Ni allaf ddarparu unrhyw ystadegau mewn perthynas â'r ymholiad, ond mae cydymffurfedd gyffredinol â'r gofyniad i gategoreiddio a chadw fideo yn uchel. Nodwyd cynnydd bach yn nifer yr achosion pan nad yw swyddogion wedi categoreiddio fideo yn ystod y misoedd diwethaf, ond, i fynd i'r afael â hyn, anfonwyd bwletin i'r heddlu cyfan yn atgoffa pob swyddog o'r polisi a'r weithdrefn.<br><br>O ran pa effaith fyddai hyn yn ei chael, neu y gallai hyn ei chael, byddai'n dibynnu ar amgylchiadau'r digwyddiad. Pe bai testun y chwiliad yn codi unrhyw bryderon neu gwynion ynghylch ymddygiad y swyddogion neu'r chwiliad, yna gallai'r effaith andwyol ddisgyn ar y swyddogion eu hunain oherwydd y byddai'n llawer anos gwrthbrofi unrhyw honiad nad oedd y chwiliad wedi'i gynnal yn gywir heb y fideo. Yn gyffredinol, gellid disgwyl i effeithiau andwyol gael eu cynnwys fel uchod, ond mae'n amlwg bod effaith bosibl ar hyder y cyhoedd hefyd. |

| | |
|---|---|
| | Os oedd y mater yn ymwneud â throseddau, yna gallai hyn arwain at golli tystiolaeth yn dibynnu ar gynnwys y fideo.<br><br>Felly mae'n bwysig bod lluniau'n cael eu categoreiddio'n gywir, a dyna pam mae bwletin dysgu ledled yr heddlu wedi'i anfon allan a phwyslais o'r newydd ar sicrhau bod y gweithdrefnau cadw cywir yn cael eu dilyn. |
| A yw'n arfer arferol cael tri swyddog yn rhan o ddigwyddiad stopio a chwilio? Nid oedd y panel yn gallu arsylwi'r chwiliad yn uniongyrchol a gofynnodd a fyddai wedi cael ei recordio ar gamerâu corff y swyddogion eraill? | O ran y ffaith bod tri swyddog wedi bod yn rhan o chwiliad y cerbyd, yr "arfer gorau" wrth gynnal chwiliad o gerbyd yw bod tri swyddog yn rhan o'r broses, gydag un swyddog yn darparu goruchwyliaeth ddiogelwch ac yn goruchwylio unrhyw deithwyr yn y cerbyd tra bod y ddau swyddog arall yn chwilio'r cerbyd.<br><br>Os yw mwy nag un swyddog yn rhan o'r chwiliad, y disgwyliad fyddai y byddai gan y tri swyddog recordiad camera corff drwy gydol y digwyddiad. |
| O ran digwyddiad 6, roedd y panel yn pryderu, er bod prawf cyffuriau'r unigolyn wedi bod yn negatif, bod yr unigolyn wedi cyfaddef cymryd sylwedd gwaharddedig y diwrnod cynt. Teimlai'r panel, ar adeg stopio, fod y swyddog yn credu bod yr unigolyn dan ddylanwad alcohol, felly gofynnwyd pam ei fod wedi cael parhau â'i daith? | Byddai hyn yn ymwneud â dau drosedd gyrru posibl ar wahân:<br><br>1) Adran 5A o Ddeddf Traffig Ffyrdd (1988) – Dros y terfyn penodedig ar gyfer cyffuriau.<br><br>2) Adran 4 o Ddeddf Traffig Ffyrdd (1988) – Anaddas oherwydd diod neu gyffuriau.<br><br>Yn yr achos hwn, mae'n ymddangos bod y swyddog wedi stopio'r cerbyd ac yn amau y gallai'r gyrrwr fod dan ddylanwad cyffuriau. Yna mae wedi dechrau prawf "amhariad rhagarweiniol" (cadach cyffuriau) ar ochr y ffordd. Yn gyffredinol, byddai hyn yn unol ag arferion derbyniol.<br><br>Yn dilyn y prawf hwn nid oes sail resymol i amau bod yr unigolyn dan amheuaeth wedi cyflawni'r drosedd Adran 5A oherwydd y prawf penodedig a ddefnyddiwyd i ffurfio'r amheuaeth resymol a arweiniodd i ganlyniad negyddol.<br><br>Mae hyn yn gadael y drosedd Adran 4 bosibl. Mewn perthynas â hyn rhaid i'r swyddog fod o'r farn nad |

| | |
|---|---|
| | oedd y testun yn addas i yrru o ganlyniad i alcohol neu gyffuriau. Mae hyn yn eithaf goddrychol ac, yn gyffredinol, mae angen tystiolaeth eithaf clir o'r "anaddasrwydd" hwn a allai gynnwys ansefydlogrwydd ar y traed, siglo yn ôl ac ymlaen, lleferydd aneglur, dryswch ac ati.<br><br>Os nad yw hyn yn bresennol, yna mae'n anodd cyfiawnhau arestiad am Adran 4 yn enwedig yn dilyn prawf cadach cyffuriau negyddol (er y derbynnir mai dim ond cocên a chanabis y mae'r prawf cyffuriau yn eu canfod ar hyn o bryd).<br><br>Felly, mae'r penderfyniad i arestio, neu beidio ag arestio, am droseddau Adran 4, fel sy'n wir gydag unrhyw arestiad, yn fater i'r swyddog sy'n bresennol ar y pryd yn unig a rhaid i gwnstabl wneud ei benderfyniad ei hun o ran arestio (neu beidio ag arestio) unigolyn ac ni all unrhyw swyddog arall ei orchymyn na'i gyfarwyddo i wneud hynny waeth beth fo rheng y swyddog hwnnw.<br><br>Yn yr achos hwn, ymddengys, er bod y swyddog yn teimlo ei fod yn gyfiawn gofyn am y cadach cyffuriau ar ymyl y ffordd, nad oedd yn teimlo bod digon o wybodaeth ar gael i gyfiawnhau arestiad am drosedd Adran 4 yn dilyn y prawf cadach cyffuriau negyddol. |